

BIOLEG 1: Molecylau i Organau

Amser - 1.5 awr

Rhowch gynnig ar 3 chwestiwn.

1. Pam, mewn termau biolegol, mae ysmygu'n syniad cynddrwg?
2. Eglurwch yr hyn fydd yn digwydd i'ch pryd bwyd nesaf unwaith iddo gyrraedd eich system dreulio.
3. Beth yw 'ATP' a pham y mae mor ganolog mewn bioleg?
4. Beth yw'r ddau fath o systemau cludiant a geir mewn planhigion a sut y maen nhw'n gweithio?
5. Trafodwch adeiledd a swyddogaethau pilenni biolegol.
6. Disgrifiwch system gylchrediad mamaliaid.
7. Pa fathau o bathogenau sy'n achosi clefydau mewn pobl a pha amddiffynfeydd sydd gan ein cyrff?
8. Ysgrifennwch draethawd biolegol ar unrhyw agwedd a ddewiswch ar y testun 'atgynhyrchu'.
9. Ymhle ym myd natur y gellir dod o hyd i bolysacaridau, a pha fath o adeileddau sydd iddynt?
10. Rhestrwch a disgrifio'r organelau sydd mewn celloedd. A oes mathau o gelloedd sydd heb organelau penodol?
11. Ym mha ffordd mae 'genynnau' yn creu 'ffenoteipiau'?
12. Dychmygwch eich bod yn yr adran 'ffrwythau a llysiau' mewn archfarchnad. Dewiswch rai o'r eitemau a dywedwch beth ydyn nhw mewn termau biolegol.
13. Disgrifiwch yr addasiadau ar gyfer cymryd ocsigen sydd gan rai organebau an-famalaidd (e.e. pry genwair, pryfyn, pysgodyn, broga, aderyn).
14. Beth sy'n rheoli 'homeostasis' yn ein cyrff?
15. Amlinellwch elfennau sylfaenol microbiolog.
16. Sut mae nerfau'n gweithio?
17. Yn 2010, amcangyfrifodd papur yn y cyfnodolyn Science bod 'cyfanswm gros y CO₂ a gymerir' yn flynyddol gan lystyfiant tirol ledled y byd tua 123 biliwn o dunelli metrig. Amlinellwch y broses hon mewn planhigyn, ac esboniwch beth oedd ystyr 'gros'.
18. Cyflwynwch arbrawf gwirioneddol neu ddychmygol ar ffurf adroddiad gwyddonol ('Cyflwyniad', 'Deunyddiau a Dulliau', 'Canlyniadau', a 'Thrafodaeth